# Rheoli poblogaethau plâu fertebraidd gan ddefnyddio dulliau cemegol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli poblogaethau plâu fertebraidd gan ddefnyddio dulliau cemegol. Mae'n gysylltiedig â'r gweithgareddau gwaith rydych chi'n ymgymryd â nhw i reoli plâu fertebraidd gan ddefnyddio dulliau cemegol.

I fodloni'r safon hon, byddwch chi'n gallu:
- nodi presenoldeb plâu fertebraidd
- cymhwyso a monitro mesurau rheoli cemegol yn gyfreithlon.

Wrth ddefnyddio cemegion, mae'n rhaid eich bod wedi cael eich hyfforddi'n llawn ar eu defnyddio a rhaid bod gennych y tystysgrifau perthnasol, yn unol â gofynion deddfwriaeth.

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n defnyddio cemegion i reoli plâu fertebraidd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynnal y gweithgarwch yn ddiogel yn unol â'r gofynion iechyd a diogelwch ac asesiadau risg perthnasol
2. gwisgo dillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) addas
3. defnyddio'r dulliau perthnasol i fonitro arwyddion i bennu gweithgarwch poblogaeth pla fertebraidd
4. addasu gweithgareddau monitro i gyfrif am amrywiadau tymhorol, amodau tywydd presennol a chynefin
5. adnabod rhywogaethau plâu fertebraidd a dehongli arwyddion i amcangyfrif lefelau'r boblogaeth
6. adnabod presenoldeb rhywogaethau nad ydynt yn darged
7. pennu pryd mai rheolaeth gemegol fyddai'r dull gweithredu gorau i ddelio â phoblogaethau plâu fertebraidd, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer penodol i wlad
8. gwirio a oes angen trwydded penodol i rywogaeth a chadarnhau ei bod ar waith
9. dewis dull rheoli cemegol sy'n briodol i'r plâu fertebraidd, nodweddion y safle, ei leoliad a'r ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol penodol i wlad
10. datblygu cyfundrefn i reoli cymhwyso'r rheolaeth gemegol
11. gosod a chynnal a chadw'r cyfarpar angenrheidiol er mwyn rheoli cymhwyso cemegion yn effeithiol, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
12. gwirio cyfarpar cymhwyso a storio yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn addas i'w ddiben
13. trin, defnyddio a storio cemegion yn ddiogel, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr a'r gofynion cyfreithiol perthnasol, bob amser
14. gweithredu'r dull rheoli cemegol mewn ffordd sy'n lleihau'r risg i rywogaethau nad ydynt yn darged ac i'r amgylchedd
15. monitro effeithiolrwydd y dull rheoli cemegol
16. gwaredu marwolaethau a deunyddiau disbyddedig yn gywir, yn unol â'r gofynion cyfreithiol a'r codau ymarfer perthnasol
17. cynnal cofnodion rheoli plâu yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol penodol i wlad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y risgiau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â rheoli plâu fertebraidd trwy ddulliau cemegol, gan gynnwys peryglon gweithio ar eich pen eich hun
2. y dillad a'r cyfarpar diogelu personol (PPE) y dylid eu gwisgo
3. eich cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth amgylcheddol a chadwraeth berthnasol yn gysylltiedig â rheoli plâu fertebraidd gan ddefnyddio dulliau cemegol
4. y ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol penodol i wlad sy'n rheoli prynu, storio a defnyddio cemegion rheoli plâu fertebraidd, gan gynnwys y gofynion am hyfforddiant a thystysgrifau
5. sut mae Deddf Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn rheoli defnyddio cemegion
6. y dulliau o fonitro presenoldeb plâu fertebraidd, gan gynnwys defnyddio technoleg
7. effeithiau'r tymhorau ac amodau'r tywydd ar fonitro poblogaethau plâu a sut mae monitro'n cael ei addasu i gyfrif am y tymor
8. y rhywogaethau plâu fertebraidd cyffredin a sut i adnabod a dehongli arwyddion i bennu gweithgarwch lefelau'r boblogaeth
9. nodweddion gwahanol rywogaethau plâu fertebraidd a'u heffaith bosibl ar weithgareddau'r safle
10. effeithiau plâu fertebraidd ar boblogaethau anifeiliaid/planhigion
11. nodweddion ymddygiadol plâu fertebraidd a fydd yn dylanwadu ar y dull rheoli cemegol a ddewisir
12. y rhywogaethau plâu sy'n dod o dan ofynion penodol i wlad am drwyddedau cyffredinol, pryd mae angen trwydded penodol i rywogaeth a sut i wneud cais amdani
13. sut i ddewis dull rheoli cemegol sy'n briodol i'r boblogaeth pla fertebraidd, nodweddion y safle, ei leoliad, a'r ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol penodol i wlad
14. pwysigrwydd gwiriadau rheolaidd ar gymhwyso a storio cyfarpar i sicrhau ei fod yn addas at ei ddiben
15. sut i addasu dulliau rheoli plâu cemegol i gyfrif am newidiadau yn y tywydd
16. sut i adnabod rhywogaethau nad ydynt yn darged a pham mae'n bwysig rheoli cymhwyso cemegion er rhywogaethau nad ydynt yn darged
17. y ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer perthnasol penodol i wlad sy'n rheoli

gwaredu cyrff plâu a deunyddiau disbyddedig

18. y gofynion ar gyfer cynnal cofnodion rheoli plâu cywir a chyfredol
19. sut i fonitro effeithiolrwydd y dulliau rheoli cemegol a'r camau i'w cymryd

## Geirfa

**Dulliau cemegol** – gwenwynau cyfreithlon

**Arwyddion gweithgarwch plâu fertebraidd** – er enghraifft:

- eu gweld yn uniongyrchol
- rhediadau
- olion troed
- difrod i gynefin
- anifeiliaid marw
- lladdiadau
- seiniau
- arogleuon
- tail

**Plâu fertebraidd** – er enghraifft: cwningod, gwahaddod, llygod, llygod mawr

LANCS84

Rheoli poblogaethau plâu fertebraidd gan ddefnyddio dulliau cemegol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 4 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS84 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Ystâd, Ciper, Tyddynnwr, Crofftwr |
| **Cyfres/Set** | Crofftio a Chadw Tyddyn, Rheoli Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt, Rheoli Digwyddiadau yn y Sector Tir |
| **Geiriau Allweddol** | pla; ysglyfaethwr; fertebraidd; cemegion; gwenwyn |